**ADRODDIAD I'R CABINET**
16/2/16

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd John Wynn Jones

**Pwnc:** Adolygiad Strategol Priffyrdd

**Swyddog cyswllt:** Dilwyn Williams, Prif Weithredwr

---

**Y penderfyniad a geisir**
Derbyn yr adolygiad strategol a chymeradwyo'r argymhellion i gynnal adolygiad o dan ffrwd gwaith "Arfogi Unedau i roi Ffordd Gwynedd ar waith"; newid lleoliad cynnal pontydd a waliau cynnal o fewn strwythur rheolaethol y cyngor a newid y drefn i un yn seiliedig ar sail risg.

---

**Barn yr aelod lleol**

Nid yw'n fater lleol.

---

**Cyflwyniad**

Dros gyfnod o rai blynyddoedd, 'rydym wedi bod yn cynnal adolygiad strategol o'r gwasanaeth priffyrdd. Pwrpas yr adolygiad yw asesu pa mor effeithiol ac effeithlon yw'r gwasanaeth.

Yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, a'r cyfnod anodd yr ydym yn ei wynebu, mae'n hanfodol ein bod yn gofyn a ydym yn gwneud y pethau iawn a beth yw'r gost o wneud hynny yn arbennig yn y meysydd lle gwelwn wariant sylweddol. Yn ogystal, mae angen i ni sefydlu os ydym yn cael gwerth am arian ar y gwariant hynny ac os gallwn barhau ar yr un trywydd a'r ydym wedi bod arno wrth symud i'r dyfodol.

Mae'r adolygiad wedi asesu'r ddarpariaeth bresennol gan ystyried yr hyn sy'n fwyaf addas ac effeithiol ar gyfer diwallu anghenion pobl Gwynedd a gwneud y mwyaf o'r arian a'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer y maes.

Wrth gwrs, fe wnaethom gynnwys cwestiwn ar dorri'r Gyllideb Cynnal Priffyrdd yn rhan o ymgynghoriad Her Gwynedd ac mae'r adolygiad wedi amlygu nifer o opsiynau ar gyfer lleihau'r gyllideb ynghyd a'r sgil effeithiau tebygol a fyddai ynghlwm a'r gwahanol opsiynau.

**Casgliadau'r adolygiad**

Mae'r adolygiad yn nodi ar y cyfan ein bod yn darparu gwasanaeth cynnal ffyrdd effeithiol gyda chyflwr ein ffyrdd yn dda. Er bod ein cyllideb dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod ymysg yr uchaf o Gynghorau'r 'teulu', yn gyffredinol does dim tystiolaeth i awgrymu ein bod yn gweithredu yn aneffeithlon.

Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn awgrymu fod lle i wella ac amlinellir yr argymhellion hyn isod:

1. **Cynnal adolygiad o'r gwasanaeth fel rhan o brosiect "Arfogi Unedau i roi Ffordd Gwynedd ar Waith"**
   Bu i'r gwaith ymgynghori hefo'r staff amlygu nifer o faterion sydd angen rhoi sylw iddynt a chyfleoedd i wella effeithlonrwydd y gwasanaeth ac o ganlyniad awgrymir cynnal yr adolygiad er mwyn ymchwilio i'r cyfleoedd hynny.~~.~~
2. **Symud y cyfrifoldeb dros gynnal pontydd, waliau cynnal a chwlferi o'r Adran Rheoleiddio i'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol.**
   Byddai hyn yn galluogi blaenoriaethu adnoddau gan gymryd gogwydd system gyfan ac yn golygu mai dim ond 1 Adran fyddai'n gyfrifol am holl strwythurau ffyrdd y Sir.
3. **Symud i drefn archwilio ac asesu pontydd, waliau cynnal a chwlferi sy'n seiliedig ar risg**
   Noda'r adroddiad nad ydym yn cydymffurfio gyda chanllawiau a chodau ymarfer ar gyfer y strwythurau hyn. Er na fyddai symud i'r drefn hon yn golygu cydymffurfio yn llawn hefo'r canllawiau a'r codau ymarfer byddai'n lleihau'r risg sydd ynghlwm i'r Cyngor trwy sicrhau fod trefniadau clir a phendant yn eu lle er mwyn targedu a sefydlu'r prif risgiau.

Yn ogystal mae effeithiau ar gyfer nifer o wahanol opsiynau ar gyfer lefel y gyllideb i'r dyfodol wedi eu cynnig sy'n amrywio o gadw'r gyllideb ar y lefel bresennol i'w lleihau o £2,000,000. Bydd y wybodaeth hon o ddefnydd i'r aelodau pan yn ystyried y toriadau ar gyfer 2016/17.

**Ystyriaethau perthnasol**

Nodir os bydd cytundeb i symud i drefn sy'n seiliedig ar risg ar gyfer archwilio ac asesu pontydd y bydd angen neilltuo adnoddau unwaith ac am byth o £104,000 er mwyn sicrhau fod y wybodaeth am yr holl strwythurau yn gyfredol.

**Argymhellion**

1) Derbyn canlyniadau'r adolygiad strategol;
2) Tra'n nodi a derbyn gwaith clodwiw y gwasanaeth, er mwyn sicrhau ein bod mor effeithiol ac effeithlon ag y gallwn fod y dylid cynnal adolygiad o'r

gwasanaeth yn cael ei gynnal dros y misoedd nesaf fel rhan o brosiect "Arfogi Unedau i Roi Ffordd Gwynedd ar Waith".

3) Y dylai cyfrifoldeb dros bontydd, waliau cynnal a chwlferi drosglwyddo i'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol gan ofyn i'r ddau aelod Cabinet perthnasol oruchwylio cynllun rhesymegol ar gyfer gwneud hynny;

4) Y dylid newid i drefn o sefydlu risgiau ein pontydd a waliau cynnal a dilyn cyfundrefn cynnal ar sail risg yn sgil hynny. Er mwyn gwneud hynny, y dylid hefyd cymeradwyo hyd at yr uchafswm o £104,000 o adnoddau unwaith ac am byth o'r gronfa buddsoddi i arbed oni bai fod yna ffyrdd eraill o ariannu'r buddsoddiad angenrheidiol gan adael i'r Pif Weithredwr mewn ymgynghoriad a'r Aelod Cabinet Adnoddau ystyried y swm sydd angen ei ryddhau o'r Gronfa.

5) Ystyried a dylid lleihau'r gyllideb cynnal ffyrdd a maint y lleihad hwnnw fel rhan o'r ystyriaeth a roddir i doriadau.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet ar yr adroddiad hwn ac yn cymeradwyo ei gynnwys.

**Y Swyddog Monitro:**
Adroddir yn fanwl ar ganlyniad adolygiad eang o'r gyfundrefn priffyrdd. Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Mewn blynyddoedd arferol blaenorol, mae'r Cyngor wedi amddiffyn y gyllideb cynnal ffyrdd ar lefel hynod gydwybodol, fel mae'r adolygiad strategol yma'n dangos wrth ei gymharu mewn sawl ffordd (gwariant ac effeithiolrwydd). Fodd bynnag, mae angen i'r Cyngor ddarganfod arbedion sylweddol er mwyn mantoli cyllideb 2016/17 yng nghyd-destun gostyngiadau grant y Llywodraeth i'r awdurdodau lleol. Felly, mae'n rhesymol i'r gyllideb cynnal ffyrdd wneud cyfraniad yn yr un modd a ddaru'r gwasanaethau eraill lle mae elfen o ddewis i'w hariannu.

Fel dywedai'r adroddiad blaen, cynhaliwyd yr adolygiad strategol yma dros gyfnod o rai blynyddoedd, ac erbyn 2016/17 mae'r strategaeth ariannol wir angen cyfraniad ohono. Yn yr adolygiad, rhoddir opsiynau i'w hystyried (ar gyfer y 5ed argymhelliad) ar wahanol lefelau o doriadau i'r gyllideb. Fodd bynnag, pe bai'r Cabinet ddim yn cefnogi'r awgrym yn yr adroddiad 'Toriadau i gau'r bwlch ariannol' i dorri'r £500,000 (7% sydd ym Mand 2), a'r £350,000 pellach (sydd ym

mharagraff 52), yna byddai angen adnabod toriad arall yn ei le, neu godi'r dreth cyngor ymhellach.

Ar gyfer y 4[edd] argymhelliad, nodir bydd angen ystyried dyrannu hyd at £104,000 o adnoddau un-tro o'r 'gronfa buddsoddi i arbed'. Bydd angen blaenoriaethu'r defnydd hyn o adnoddau'r 'gronfa buddsoddi i arbed' yn erbyn galwadau eraill, ond gallai'r arbedion parhaol o £52,600 y flwyddyn (crybwyllir ym mharagraff 5.4.8(2) yn yr adolygiad) gyfiawnhau'r dyraniad, os na fydd tanwariant adrannol 2015/16 yn ddigonol er mwyn ariannu'r buddsoddiad ynghylch 'strwythurau'.

---

**Atodiadau**

Mae'r Adolygiad Strategol wedi ei gynnwys fel Atodiad. Ceir crynodeb gweithredol ar ddechrau'r ddogfen (tudalennau 4 – 6)